## Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 15 Tachwedd 2006

## Cynigion a Gyflwynwyd ar 8 Tachwedd 2006

**Dadl Fer**

**NDM3312 Denise Idris Jones (Conwy):** Cefnogi Diwylliant yng Nghymru

**NDM3313**

**Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Meirionnydd Nant Conwy)**

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth)**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

**William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Elin Jones (Ceredigion)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cadarnhau penodiad Claire Clancy yn Glerc Cynulliad Cendlaethol Cymru dan gyfansoddiad Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae telerau’r penodiad yn rhagweld y daw deiliad y swydd yn Brif Weithredwr Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ol y trefniadau trosglwyddol ym mharagraff 17 Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

**NDM3314 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi’r cynnydd a wnaed o ran sicrhau ad-drefnu gwasanaethau iechyd acíwt yn y gwahanol rannau o Gymru, fel y'i nodwyd yn y *Cynllun Cyflenwi* ar gyfer y Canolbarth a’r Gorllewin, *Cynllun Gogledd Cymru* ar gyfer y Gogledd ac *Ail-lunio eich Gwasanaethau Iechyd Lleol* ar gyfer y De Ddwyrain.

*Mae dolenni at y dogfennau a enwir yn y cynnig i’w gweld isod:*

*Gogledd Cymru:*

*http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/530/ACF27E1%2Epdf*

*Canolbarth a Gorllewin Cymru: (fersiwn Saesneg)*

*http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=259&pid=13040*

*De Ddwyrain Cymru: (fersiwn Saesneg)*

*http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=263&id=55569*

**NDM3315 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006, a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; a'r
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

**NDM3316 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006.

**NDM3317 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7

Tachwedd 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

**NDM3318 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Cychwyn) (Cymru) y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006.

**NDM3319 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Cychwyn) (Cymru); a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Cychwyn) (Cymru) yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006.

**NDM3320 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

**NDM3321 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

*Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**NDM3322 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor The Directions to Local Health Boards as to the Statement of Financial Entitlements (Amendment) (No. 2) Directions 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

**NDM3323 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn cymeradwyo The Directions to Local Health Boards as to the Statement of Financial Entitlements (Amendment) (No. 2) Directions 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2006.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 09 Tachwedd 2006

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

**NDM3314**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r broses ad-drefnu'n adlewyrchu dyhead Cynllun Oes, a oedd yn nodi'n benodol bod angen ymagwedd holistaidd a bod angen datblygu consensws gwleidyddol a chyhoeddus.

*Gellir dod o hyd i Cynllun Oes drwy ddilyn y ddolen hon:*
*http://www.wales.nhs.uk/documents/designed_for_life-w.pdf*

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i atal y broses ad-drefnu rhannol gyfredol ac, erbyn diwedd Chwefror 2007, i lunio canllawiau newydd i'r BILlau ac i Ymddiriedolaethau'r GIG sydd

a) Yn sicrhau yr ymgynghorir â chymunedau ledled Cymru er mwyn nodi a blaenoriaethu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a bod y cymunedau hynny'n cefnogi unrhyw gynigion ad-drefnu a fydd yn dilyn;

b) Yn sicrhau y dylai unrhyw gynlluniau ad-drefnu gynnwys cynlluniau manwl sydd wedi'u costio a'u hamserlennu ar gyfer datblygu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol;

c) Yn sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer darparu gofal eilaidd yn llwyr ystyried daearyddiaeth Cymru, effaith pellter ar ofal iechyd, a bod angen darparu gwasanaethau ysbyty cyflawn i wasanaethu poblogaethau o 150,000 neu lai, lle bo natur wledig rhan helaeth o Gymru'n mynnu hynny;

d) Yn sicrhau bod anghenion y cymunedau mwyaf amddifad a'r rheiny sydd fwyaf eu hangen o ran iechyd yn cael sylw llawn mewn unrhyw gynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau;

e) Yn sicrhau bod unrhyw gynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau iechyd yn llwyr ystyried bod angen integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.